Hysbysiad mewn perthynas â diddymu dynodiad Cymwysterau Categori B: 18 Awst 2021

At: Swyddogion Cyfrifol yr holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig Cymwysterau Galwedigaethol

O dan Amod VCR1.8, caiff Cymhwyster Categori B[1] ei ddiffinio fel cymhwyster a ddynodwyd felly gan Gymwysterau Cymru. Mae'r diffiniad yn nodi y bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu cyrff dyfarnu am unrhyw newidiadau i'r dynodiad hwnnw, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaethau arbed neu drosiannol.

Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed o'r fath o dan Amod VCR1.3(b).

Mae Cymwysterau Cymru yn hysbysu y bydd yr holl gymwysterau sydd wedi'u dynodi fel Cymwysterau Categori B ar hyn o bryd yn cael eu diddymu o 1 Medi 2021 yn amodol ar y darpariaethau arbed a throsiannol a nodir isod.

Darpariaethau arbed a throsiannol

O ran pob Dysgwr a ddaeth o fewn Amod VCR3.1 fel ag yr oedd ar 24 Mawrth 2021, rhaid i gorff dyfarnu barhau i gydymffurfio ag Amodau VCR3 – VCR8 fel pe bai –

(a) y cymhwyster a gymerir gan y Dysgwr hwnnw yn parhau i fod wedi'i ddynodi'n Gymhwyster Categori B, ac

(b) y darllenir unrhyw gyfeiriad at Amod VCR3.1 yn yr amodau hynny fel cyfeiriad at yr amod hwnnw fel ag yr oedd ar 24 Mawrth 2021.

Rhaid i gorff dyfarnu gadw'r holl gofnodion o benderfyniadau sy'n ofynnol o dan Amod VCR5 mewn perthynas â chymhwyster Categori B am dair blynedd ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, a darparu'r cofnodion hynny i Gymwysterau Cymru os y gofynnir iddynt wneud hynny.

[1] Mae gan delerau yn yr hysbysiad hwn yr un ystyr ag o dan Amodau VCR1.4 a VCR1.8.